Y BUSNES O AILGYLCHU CYMRU THE BUSINESS OF RECYCLING WALES | WRAP CYMRU

# Y Busnes o Ailgylchu: Canllaw Archwiliad Gwastraff

**Canllaw cam wrth gam i ymgymryd ag archwiliad gwastraff**

1. **Casglu'ch cyfarpar**

Bydd arnoch angen:

- tarpolin neu gynfas plastig i arllwys gwastraff arno i'w ddidoli
- cyfarpar diogelu personol (PPE) addas fel y'i nodwyd drwy gynnal asesiad risg (i'ch diogelu chi a'ch dillad)
- cynwysyddion ar gyfer didoli'r gwastraff iddynt
- offer pwyso
- pin ysgrifennu a ffurflen i gofnodi eich canfyddiadau

Dylech lunio asesiad risg cyn ymgymryd ag archwiliad gwastraff i sicrhau bod yr holl risgiau wedi cael eu hystyried a'u lliniaru, e.e. trin â llaw. Sicrhewch fod yr holl gydweithwyr perthnasol wedi cael eu briffio'n iawn ar y dasg cyn dechrau ar yr archwiliad yn cynnwys eich swyddog neu dîm Iechyd a Diogelwch.

2. **Casglu'ch gwastraff**

Casglwch eich gwastraff – gan gynnwys gwastraff cyffredinol, holl ddeunyddiau ailgylchadwy a gwastraff o'r gegin a gwastraff o finiau sbwriel os yw'n berthnasol.

Bydd angen ichi gasglu gwastraff am gyfnod penodol, felly os mai'n wythnosol caiff eich gwastraff ei gasglu, yna'r adeg gorau i ymgymryd â'ch archwiliad yw'r diwrnod cyn i'r gwastraff gael ei gasglu, gan y bydd yn rhoi gwerth wythnos o ddeunydd ichi. Bydd hyn yn eich galluogi i gyfrifo eich allbwn misol a blynyddol yn hawdd. Os caiff eich gwastraff ei gasglu'n ddyddiol, trefnwch i werth diwrnod o wastraff gael ei gadw'n ôl i chi ar gyfer yr archwiliad.

3. **Didoli**

Arllwyswch y gwastraff ar eich tarpolin/cynfas plastig a'i ddidoli yn ôl y gwahanol fathau o ddeunyddiau gan ddefnyddio eich cynwysyddion didoli. Defnyddiwch y templed archwiliad gwastraff fel canllaw wrth benderfynu ar y nifer o wahanol fathau o ddeunyddiau.

4. **Mesur**

Pwyswch bob math o wastraff, gan gofio tynnu pwysau'r cynhwysydd i gael pwysau net y deunydd. Dyma eich 'pwysau net'.

5. **Cofnodi**

Cofnodwch ddyddiad, amser a lleoliad cynnal eich archwiliad a phwysau pob eitem ar eich ffurflen.

6. **Ailadrodd x2**

Pan fo'n bosibl mae'n syniad da ailadrodd yr archwiliad (camau 2-5) ddwywaith drachefn (felly cyfanswm o dair gwaith) a chael cyfartaledd o'ch cyfansymiau. Bydd hyn yn cynnig darlun mwy cywir o'r mathau a'r symiau o wastraff ac ailgylchu a gynhyrchir.

7. **Canlyniadau**

Gan ddefnyddio pwysau net cyfartalog pob ffrwd ddeunyddiau, cyfrifwch eich cyfanswm gwastraff ac ailgylchu blynyddol. Cyfrifwch eich cyfanswm y gwastraff rydych yn ei gynhyrchu fesul blwyddyn, er enghraifft drwy ei luosi â 52 os mai fesul wythnos y gwnaethoch fesur.

Y BUSNES O AILGYLCHU CYMRU
THE BUSINESS OF RECYCLING WALES
WRAP CYMRU

# Templed Archwiliad Gwastraff

| | | |
|---|---|---|
| **Safle:** | | |
| **Dyddiad ac amser:** | | |
| **Rhif Sampl:** | | |
| **Deunydd:** | **KGs** | **Disgrifiad pellach** |
| Papur | | |
| Cerdyn | | |
| Plastig *(poteli, potiau a thybiau)* | | |
| Metelau *(caniau diodydd a thuniau bwyd)* | | |
| Cartonau, yn cynnwys cwpanau coffi | | |
| Gwydr *(poteli a jariau)* | | |
| Gwastraff bwyd *(bwyd ros ben, bwyd heb ei fwyta, bagiau te ac ati)* | | |
| Tecstilau heb eu gwerthu | | |
| WEEE bach heb ei werthu | | |
| Gwastraff arall: | | |
| | | |
| | | |
| Gwastraff na ellir ei ailgylchu | | |
| CYFANSWM | | Sylwadau: |

Cymru yn ailgylchu
Wales recycles